Ysgol Cybi

Polisi Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion / *Taking Photos for the Purpose of School Publicity Policy*

(Fersiwn 1, Rhagfyr 2022 / *Version 1, December 2022*)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod proses effeithiol a phriodol ar waith mewn perthynas â thynnu lluniau o ddisgyblion at ddibenion cyhoeddusrwydd.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar dudalen Diogelu Data sydd ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines what the school needs to do to ensure that there is an effective and appropriate process in place in relation to taking photos of pupils for the purpose of publicity.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1/*V1*	Rhagfyr 2022 / *December 2022*	Polisi newydd / *New policy.*	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:*	Rhagfyr 2025 / *December 2025*
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen: Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod proses effeithiol a phriodol ar waith mewn perthynas â thynnu lluniau o ddisgyblion at ddibenion cyhoeddusrwydd.

Document: *This policy outlines what the school needs to do to ensure that there is an effective and appropriate process in place in relation to taking photos of pupils for the purpose of publicity.*

Cyfrifoldeb: Cyfrifoldeb y llywodraethwyr ysgol yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r polisi hwn. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau gweithrediad a chydymffurfiaeth gan holl staff yr ysgol.

Responsibility: *It is the responsibility of the school governors to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with this policy. It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all school staff.*

Cynnwys **Tudalen**

1. Datganiad Polisi 4
2. Sgôp 4
3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau 4
4. Diffiniadau 5
5. Cyfrifoldebau 6
   5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol 6
   5.2. Pennaeth (ac/neu'r Person sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol) 6
   5.3. Holl Staff yr Ysgol 7
   5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion 7
6. Lluniau ar gyfer Defnydd Ysgol Swyddogol 8
7. Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol yr Ysgol 8
8. Sail Gyfreithiol dros Dynnu Lluniau 9
   8.1. Ffurflenni Caniatâd 9
   8.2. Peidio â Darparu Caniatâd i Dynnu Lluniau 10
   8.3. Cadw Cofnod o'r Disgyblion nad ydynt wedi Darparu Caniatâd 10
9. Delweddau a Dynnir gan y Cyfryngau a Sefydliadau Allanol 10
   9.1. Cyfryngau 11
   9.2. Sefydliadau Allanol 11
   9.3. Ffotograffydd Masnachol 11
10. Digwyddiadau Diogelwch Data 12
11. Ceisiadau gan Wrthrych y Data 12
12. Defnydd Personol 12
13. Hyfforddi Staff 13
14. Mynd yn Erbyn y Polisi 13
15. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth 13
ATODIAD A – Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion 27
Polisi – Rhestr Wirio'r Pennaeth

English Version **15**

1. Datganiad Polisi

Mae'r ysgol yn tynnu ffotograffau, delweddau a recordiadau o wersi, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae hyn yn cefnogi'r ysgol i gipio atgofion i ddisgyblion; i recordio cynnydd addysgol ac i arddangos gweithgareddau ac ymarferion yn yr ysgol.

Gall defnyddio ffotograffau ar gyfer deunyddiau cyhoeddusrwydd ac i hyrwyddo'r ysgol yn y wasg ac ar gyfryngau cymdeithasol gynyddu cymhelliant disgyblion a morâl staff, a helpu rhieni a'r gymuned leol i adnabod a dathlu llwyddiannau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn dilyn ymarferion diogelu data da i sicrhau bod data personol disgyblion yn cael ei ddiogelu gan gynnwys ffotograffau, delweddau a recordiadau.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn i sicrhau bod proses ar waith ar gyfer disgyblion/rhieni/gofalwyr i ddarparu eu caniatâd i dynnu a rhannu ffotograffau a recordiadau ac i sicrhau nad oes digwyddiadau diogelwch data'n codi.

Bydd yr ysgol yn lleihau risgiau drwy ddilyn y canllawiau a fanylir yn y polisi hwn a thrwy sicrhau caniatâd disgyblion/rhieni/gofalwyr dros ddefnyddio ffotograffau.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r defnydd o ffotograffau, delweddau a recordiadau drwy'r ysgol neu wedi ei drefnu gan yr ysgol mewn perthynas â disgyblion y gellir eu hadnabod o'r ffotograffau, delweddau a recordiadau.

Defnyddir y termau 'ffotograffau', 'delweddau' a 'recordiadau' ar gyfer unrhyw ddelweddau a dynnir gyda chamera, ffôn symudol a ffilm.

3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol ac ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y canllawiau *'Taking Photographs in Schools'*.

Dylid dilyn *'Photography and sharing images guidance'* yr NSPCC hefyd- https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/briefings/photography-sharing-images-guidance

Dylid hefyd darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion; Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion; Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion; Polisi Ceisiadau gan Wrthrych y Data Ysgolion; Polisi Diogelu; Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* a'r *Polisi E-ddiogelwch.*

4. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, meddiannu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, dargadw, diwygio, addasu, altro, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, dileu gwybodaeth neu ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi.
Sail Gyfreithlon	Mae sail gyfreithlon yn golygu os yw sefydliad eisiau prosesu data personol, mae angen adnabod seiliau cyfreithiol penodol dros wneud hynny fel y diffinnir yn Erthygl 6 o UK GDPR ac Erthygl 9 o UK GDPR.
Cydsyniad	O wrthrych y data yn golygu unrhyw arwydd penodol, gwybodus a diamwys o ddymuniadau gwrthrych y data y mae ef neu hi, drwy ddatganiad neu drwy weithred gadarnhaol glir, yn dynodi cytundeb i brosesu data personol sy'n ymwneud ag ef neu hi. Mae'r baich o ddangos cydsyniad ar y rheolydd data.
Rheolydd Data	Y bobl, neu'r sefydliadau, sy'n pennu at ba ddibenion, a'r modd y caiff unrhyw ddata personol ei brosesu. Mae gan y rheolydd data gyfrifoldeb i sefydlu arferion a pholisïau yn unol â deddfwriaeth. Yr ysgol yw'r rheolydd data.
Defnyddwyr data	Yn cynnwys gweithwyr sydd â'u gwaith yn ymwneud â data personol. Mae gan ddefnyddwyr data ddyletswydd i ddiogelu'r wybodaeth y maent yn ymdrin â hi drwy ddilyn polisïau diogelu data a diogelwch bob amser. Mae staff a gyflogir gan ysgolion yn ddefnyddwyr data.
Gwrthrych y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef.
Digwyddiad Diogelwch Data	Toriad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.
Cyfryngau Cymdeithasol	Unrhyw blatfform ar-lein sy'n cynnig rhyngweithio amser real rhwng y defnyddiwr ac unigolion neu grwpiau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lwyfannau cyfathrebu, fforymau trafod ar-lein, blogiau, gofodau cydweithredol, gwasanaethau rhannu cyfryngau, cymwysiadau micro-flogio a'r defnydd o we-gamerâu.

Seiberddiogelwch	Cyfeiria seiberddiogelwch at y corff o dechnolegau, prosesau ac arferion a gynlluniwyd i ddiogelu rhwydweithiau, dyfeisiau, rhaglenni a data rhag ymosodiad, difrod neu fynediad heb awdurdod.
Ap	Mae'r gair "ap" yn dalfyriad ar gyfer "application" yn y Saesneg. Mae'n ddarn o feddalwedd sy'n gallu rhedeg drwy borwr gwe neu all-lein ar gyfrifiadur, ac ar ffôn clyfar, tabled neu ddyfeisiau electronig eraill.

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol
Mae corff llywodraethu ysgol yn gyfrifol am:

- fonitro cydymffurfiaeth ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol mewn perthynas â'r polisi hwn;
- sicrhau y gall yr ysgol dystiolaethu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

5.2. Pennaeth (ac/neu'r Person sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)
Mae'r Pennaeth ac/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn a pholisïau statudol a rheoliadol eraill mewn perthynas â diogelu data;
- sicrhau bod proses ar waith i ddiogelu ffotograffau, delweddau a recordiadau yn yr ysgol;
- sicrhau nad oes unrhyw ddelweddau o blentyn sy'n destun gorchymyn llys yn cael eu defnyddio a'u cyhoeddi;
- sicrhau bod yr ysgol yn hysbysu disgyblion/rhieni/gofalwyr o flaen llaw beth mae'r ysgol am fod yn ei wneud â'u ffotograffau, delweddau a recordiadau;
- sicrhau bod yr ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion/rhieni/gwarcheidwaid ddarparu eu caniatâd neu opsiwn i beidio â darparu eu caniatâd i ffotograffau neu recordiadau gael eu tynnu o'u plentyn;
- gofyn i ddisgyblion/rhieni/gofalwyr yn reolaidd i adolygu'r ffurflenni caniatad, o leiaf yn flynyddol, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn gyfredol;
- sicrhau bod staff yr ysgol yn parchu hawliau preifatrwydd disgyblion/rhieni/ gofalwyr a'u bod yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant;
- sicrhau bod disgyblion wedi eu gwisgo'n briodol (lleiafswm o fest/crys a siorts) ym mhob ffotograff a recordiad ysgol;
- sicrhau nad oes ffotograffau neu recordiadau'n cael eu tynnu o ddisgyblion yn ystod gwersi nofio;
- sicrhau bod delweddau o ddisgyblion yn cael eu storio'n ddiogel a bod delweddau electronig yn cael eu storio ar rwydwaith diogel a dim ond yn cael eu defnyddio gan y rhai yn yr ysgol sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny;
- sicrhau na gynhwysir enwau disgyblion gyda ffotograffau o blant a gyhoeddir ar wefan ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol;

- sicrhau bod caniatâd yn cael ei geisio mewn achosion lle mae'r ysgol yn gofyn am ddelwedd o ddisgybl i fynd law yn llaw â gwybodaeth feddygol at ddibenion diogelu;
- sicrhau na fydd staff yn defnyddio dyfeisiau personol (megis ffonau symudol neu dabledi) neu ddyfeisiau nad yr ysgol sy'n berchen arnynt i gymryd, storio, uwchlwytho neu rannu ffotograffau neu recordiadau o ddisgyblion yn ystod cwrs busnes yr ysgol;
- sicrhau bod yr ysgol yn hysbysu disgyblion/rhieni/gwarcheidwaid lle mae trefniadau wedi'u gwneud i ffotograffydd masnachol ffilmio digwyddiadau neu fod ffotograffau ysgol yn cael eu cymryd gan weithiwr proffesiynol allanol yn ystod y flwyddyn ysgol;
- sicrhau bod yr ysgol yn dilyn y canllawiau NSPCC pan fo ffotograffydd masnachol yn cael ei ddefnyddio;
- sicrhau bod yr ysgol yn cadw cofnod o ba ddisgyblion sydd â chaniatâd neu nad oes ganddynt ganiatâd eu rhieni/gofalwyr a sicrhau bod staff ysgol perthnasol yn ymwybodol o bwy sydd heb ddarparu caniatâd;
- sicrhau bod aelodau awdurdodedig o staff yn yr ysgol yn coladu ffotograffau a delweddau pan fydd unigolyn yn gofyn am gopi o'i wybodaeth;
- sicrhau bod proses gadarn ar waith i ganfod ac adnabod digwyddiadau diogelwch data; i ymchwilio ac asesu digwyddiadau diogelwch data gan gynnwys risgiau ac i rannu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

5.3. Holl Staff yr Ysgol

Mae'r holl staff a gyflogir gan yr ysgol neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cymorthyddion dosbarth, staff cefnogi busnes a llywodraethwyr yn gyfrifol am:

- sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn;
- sicrhau bod ffotograffau, delweddau a recordiadau'n cael eu prosesu'n unol â *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*;
- adrodd yn syth ar unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data gwirioneddol, amheuol, bygythiol neu botensial i'r Pennaeth ac/neu i'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol.

5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- ddarparu cyngor ac arweiniad i'r ysgol ynglŷn ag amddiffyn a diogelu gwybodaeth;
- monitro gweithrediad a chydymffurfiaeth â'r polisi;
- darparu cyngor a chymorth ac arwain ar adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch data;
- hwyluso a chefnogi'r ysgol i ymateb i geisiadau gan wrthrych y data o fewn y cyfnod amser pan fo angen.

6. Lluniau ar gyfer Defnydd Ysgol Swyddogol

Bydd lluniau a dynnir ar gyfer defnydd ysgol swyddogol, megis prosbectws yr ysgol neu i'w hanfon i'r papur lleol, neu i'w huwchlwytho i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol, yn cael eu cwmpasu gan gyfraith diogelu data ac felly dylid dilyn y ddeddfwriaeth.

Gall ffotograffau ysgol swyddogol gael eu rhannu'n gyhoeddus a gallant gynnwys ffotograffau a dynnir gan neu a rannir gyda'r wasg; a gymerir gan aelodau o staff ac yna'u huwchlwytho a'u rhannu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol; gwefan yr ysgol neu mewn newyddlen neu brosbectws. Gall hyn hefyd gynnwys ffotograffau a recordiadau ar apiau a rhaglenni addysgol ac at ddibenion rheolaeth ysgol (megis llun o ddisgybl ar SIMS). Gall hefyd gynnwys ffotograffau y gellir eu gweld neu y gellir cael mynediad atynt yn adeilad yr ysgol.

Os gellir adnabod unigolyn o ffotograff, caiff ei ystyried gan amlaf fel eu data personol. Mae'n rhaid i'r ysgol gael sail gyfreithlon dros brosesu data personol.

Os oes lluniau o grŵp o ddisgyblion yn cael eu tynnu o'r tu ôl, ac na ellir adnabod disgyblion unigol, nid oes angen caniatâd ar gyfer hyn. Fodd bynnag, os oes unrhyw amheuaeth, dylai'r ysgol fod yn ofalus a gofyn am ganiatâd.

Bydd disgyblion yn cael eu gwisgo'n briodol (o leiaf fest/crys a siorts) o fewn holl ffotograffau a recordiadau swyddogol yr ysgol. Ni fydd disgyblion yn cael ffotograffau na recordiadau wedi'u tynnu ohonynt yn ystod gwersi nofio.

Ni fydd yr ysgol yn defnyddio delwedd o unrhyw blentyn sy'n destun i orchymyn llys ac ni fydd yn defnyddio ffotograffau o blant na staff sydd wedi gadael yr ysgol at ddibenion newydd.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod delweddau o ddisgyblion yn cael eu storio'n ddiogel a bod delweddau electronig yn cael eu storio ar rwydwaith diogel a ddefnyddir gan y rhai yn yr ysgol sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny'n unig.

7. Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn ystyried ac yn ymwybodol o faterion amddiffyn a diogelu plant wrth dynnu lluniau o ddisgyblion neu eu ffilmio.

Mae'r ysgol yn cydnabod y risgiau posibl oherwydd diffyg rheolaeth dros bwy allai weld ffotograffau a recordiadau ar y rhyngrwyd.

Ni fydd enwau disgyblion yn cael eu cynnwys gyda ffotograffau o blant sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Ni fydd staff yr ysgol yn defnyddio dyfeisiau personol (fel ffonau symudol neu dabledi) na dyfeisiau nad yw'r ysgol yn berchen arnynt i dynnu, storio, uwchlwytho neu rannu ffotograffau neu recordiadau o ddisgyblion yn ystod cwrs busnes yr ysgol.

8. Sail Gyfreithiol dros Dynnu Lluniau

Yn gyffredinol, bydd yr ysgol yn dibynnu ar 'ganiatâd' fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu ffotograffau, delweddau a recordiadau o ddisgyblion:

> 6(1) (a) UK GDPR- *mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd i brosesu ei ddata personol at un neu fwy o ddibenion penodol.*

Rhaid i'r ysgol roi gwybod i ddisgyblion/rhieni/gofalwyr ymlaen llaw beth mae'r ysgol yn mynd i'w wneud â'u ffotograffau a'u delweddau fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r dechrau. Bydd yr ysgol yn rhagweithiol ac yn dryloyw pan fydd ffotograffau a delweddau'n cael eu cynllunio. Ymdrinnir â hyn yn Hysbysiad Preifatrwydd yr ysgol.

8.1. Ffurflenni Caniatâd

Gofynnir i ddisgyblion/rhieni/gwarcheidwaid roi caniatâd drwy ffurflen ganiatâd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol i'w plentyn gael ei ffotograffu neu ei recordio. Bydd y caniatâd a roddir yn parhau hyd nes y bydd disgybl/rhiant/gofalwr yn datgan nad yw'n rhoi ei ganiatâd mwyach. Yna bydd angen i ddisgyblion/rhieni/gofalwyr lenwi ffurflen ganiatâd newydd fel bod gan yr ysgol gofnod swyddogol o'u dymuniadau presennol.

Mae'r ysgol yn gofyn i ddisgyblion/rhieni/gofalwyr yn reolaidd i adolygu'r ffurflenni caniatad, o leiaf yn flynyddol, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn gyfredol.

Gofynnir i ddisgyblion/rhieni/gwarcheidwaid lofnodi'r ffurflen ganiatâd gan roi caniatâd i gyhoeddi ffotograffau at ddibenion a gweithgareddau cyhoeddusrwydd gwahanol gan gynnwys ar wefan yr ysgol a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac mewn papurau newydd lleol.

Bydd disgyblion/rhieni/gwarcheidwaid yn rhoi caniatâd neu ddim yn rhoi caniatâd ar gyfer pob gweithgaredd prosesu ar wahân a gallant **dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg**. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr/disgyblion am eu hawl i dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

Gall disgyblion eu hunain roi eu caniatâd eu hunain neu ddweud nad ydynt yn rhoi caniatâd os ydynt yn ddigon hen i wneud eu penderfyniadau eu hunain a deall eu hawliau data.

Mae gan rieni/gwarcheidwaid yr hawl i ofyn i'w plentyn eu hunain beidio â chael ei ffotograffu. Efallai na fydd rhai plant, rhieni neu ofalwyr yn gyfforddus gyda delweddau ohonynt eu hunain neu eu plant yn cael eu rhannu am wahanol resymau a allai gynnwys:

- os yw plentyn a/neu ei deulu wedi cael eu cam-drin/aflonyddu, gallant boeni am y cyflawnwr yn eu holrhain ar-lein;

- gall plant sy'n dewis peidio â chael cyswllt â rhai aelodau o'u teulu benderfynu lleihau eu presenoldeb ar-lein;
- efallai y bydd gan deuluoedd resymau crefyddol neu ddiwylliannol dros ddewis peidio â chael eu ffotograffu.

Gellir dod o hyd i dempledi ffurflenni caniatâd ar y dudalen Diogelu Data ar feicrosafle'r Gwasanaeth Dysgu.

Dylid ceisio caniatâd hefyd mewn achosion lle mae'r ysgol yn gofyn am ddelwedd o ddisgybl i gyd-fynd â gwybodaeth feddygol am resymau diogelu (e.e. poster disgybl sydd ag alergedd bwyd difrifol at ddibenion adnabod).

8.2. Peidio â Darparu Caniatâd i Dynnu Lluniau

Lle nad yw disgyblion/rhieni/gofalwyr wedi rhoi caniatâd iddynt hwy/eu plant gael eu cynnwys mewn ffotograffau neu recordiadau, bydd yr ysgol yn parchu hawliau preifatrwydd disgyblion/rhieni/gofalwyr ac yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant potensial.

Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i atal tynnu llun o ddisgybl na ddylid ei adnabod ac ni roddwyd caniatâd ar ei gyfer.

Bydd yr ysgol yn dileu unrhyw ffotograffau, delweddau neu recordiadau nad ydynt wedi'u defnyddio eto. Os yw'r ffotograffau, y delweddau neu'r recordiadau eisoes wedi'u defnyddio, bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i dynnu delweddau oddi ar wefannau neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol lle nad yw disgyblion/rhieni/gofalwyr yn rhoi eu caniatâd mwyach. Ni all yr ysgol warantu, hyd yn oed pan gaiff delweddau eu tynnu, na fyddant ar gael ar y rhyngrwyd o hyd neu na fyddant yn ymddangos yn y cyfryngau os yw'r wybodaeth eisoes wedi'i rhannu.

Ni ddefnyddir unrhyw ddelwedd at ddibenion cyhoeddusrwydd heb ganiatâd.

Os bydd rhieni/gofalwyr yn anghytuno ynghylch caniatâd eu plentyn, caiff ei drin fel pe na bai caniatâd wedi'i roi.

8.3. Cadw Cofnod o'r Disgyblion nad ydynt wedi Darparu Caniatâd

Bydd gan yr ysgol weithdrefn briodol ar waith ar gyfer ymdrin â ffotograffau, delweddau a recordiadau disgyblion.

Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o ba ddisgyblion sy'n cael caniatâd a'r rhai nad ydynt wedi rhoi caniatâd ac yn sicrhau bod staff perthnasol yr ysgol yn ymwybodol o bwy na ddylid tynnu eu llun na'u ffilmio.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â gweithdrefnau diogelu i amddiffyn disgyblion penodol a allai fod yn agored i niwed.

9. Delweddau a Dynnir gan y Cyfryngau a Sefydliadau Allanol

9.1. Cyfryngau

Os gwahoddir y cyfryngau i'r ysgol at ddibenion cyhoeddusrwydd, bydd rhieni/gofalwyr y disgyblion hynny sy'n debygol o ymddangos mewn unrhyw gyhoeddiad yn y cyfryngau yn cael gwybod.

Mae'r cyfryngau'n gweithredu o dan eu cod ymarfer eu hunain ac maent yn ddarostyngedig i set ar wahân o reoliadau. Mae Cod Ymarfer y *Press Complaints Commission* yn nodi:

- rhaid i newyddiadurwyr beidio â chyfweld neu dynnu llun plentyn o dan 16 oed ar bynciau sy'n ymwneud â lles y plentyn yn absenoldeb neu heb ganiatâd rhiant neu oedolyn arall sy'n gyfrifol am y plentyn;
- ni ddylid cysylltu â disgyblion na thynnu lluniau ohonynt tra byddant yn yr ysgol heb ganiatâd awdurdodau'r ysgol.

Bydd yr ysgol ond yn caniatáu i'r plant hynny sydd wedi rhoi caniatâd ymddangos mewn ffotograffau neu ffilmiau.

9.2. Sefydliadau Allanol

Os bydd sefydliadau allanol yn darparu gweithgareddau neu'n cynnal digwyddiadau, bydd rhieni/gofalwyr y disgyblion hynny sy'n debygol o ymddangos mewn unrhyw gyhoeddiad yn y cyfryngau yn cael eu hysbysu. Bydd yr ysgol ond yn caniatáu i ddisgyblion sydd wedi rhoi caniatâd i ymddangos mewn ffotograffau neu ffilmiau, ond efallai y bydd yn ofynnol i rieni/gofalwyr hefyd lofnodi ffurflenni caniatâd y cwmni hwnnw cyn y gweithgaredd/digwyddiad.

9.3. Ffotograffydd Masnachol

Bydd yr ysgol yn hysbysu disgyblion/rhieni/gofalwyr pan fydd trefniadau wedi'u gwneud i ffotograffydd masnachol ffilmio digwyddiadau neu pan fo ffotograffau dosbarth i'w tynnu gan weithiwr proffesiynol allanol yn ystod y flwyddyn ysgol. Bydd disgyblion/rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu o flaen llaw pan fydd ffotograffau neu recordiadau'n cael eu tynnu.

Lle defnyddir ffotograffydd masnachol, bydd yr ysgol yn dilyn canllawiau'r NSPCC:

- dylai ysgolion roi briff clir am yr hyn a ystyrir yn briodol o ran cynnwys ac ymddygiad;
- dylai ysgolion roi manylion adnabod i'r ffotograffydd y mae'n rhaid eu gwisgo bob amser;
- dylai ysgolion roi gwybod i rieni a phlant y bydd ffotograffydd yn bresennol mewn digwyddiad a sicrhau eu bod yn cydsynio i dynnu a chyhoeddi ffilmiau a ffotograffau;
- ni ddylai ysgolion ganiatáu mynediad heb oruchwyliaeth i blant na sesiynau lluniau un i un gartref;
- ni ddylai ysgolion gymeradwyo/caniatáu sesiynau tynnu lluniau y tu allan i'r digwyddiad nac yng nghartref plentyn.

10. Digwyddiadau Diogelwch Data

Gall achosion o ddatgelu ffotograffau neu recordiadau o ddisgyblion yn anghywir arwain at bryderon diogelu a chanlyniadau gofidus i'r teuluoedd a'r staff dan sylw. Bydd hefyd yn arwain at ddigwyddiad diogelwch data.

Dylai staff sy'n ymwybodol bod ffotograffau neu recordiadau wedi'u datgelu ar gam roi gwybod i'r Pennaeth am y digwyddiad cyn gynted ag y bydd yn digwydd. Yna bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ystyried a oes angen rhoi gwybod i'r ICO am y digwyddiad.

Mae angen i'r holl staff fod yn agored am unrhyw ddigwyddiadau fel bod yr ysgol yn sicrhau ei bod yn gweithredu'n gyfrifol, yn cefnogi aelodau o staff ac yn delio â'r digwyddiad mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl.

Mae templed adroddiad digwyddiad diogelwch data ar gyfer ysgolion a chanllawiau cysylltiedig ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion.*

11. Ceisiadau gan Wrthrych y Data

Mae gan unigolion yr hawl i gael cadarnhad bod eu gwybodaeth yn cael ei phrosesu ac i ofyn am fynediad hefyd a chael copïau o wybodaeth bersonol sydd gan yr ysgol amdanynt neu wybodaeth am blentyn y maent yn gyfrifol amdano (cais gan wrthrych y data).

Mae ffotograffau a recordiadau yn ddata personol ac yn dod o dan y weithdrefn cais gan wrthrych y data.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod aelodau o staff awdurdodedig yn gallu cael gafael ar ffotograffau a delweddau pan fydd unigolyn yn gofyn am gopi o'i wybodaeth.

Bydd yr ysgol yn dilyn y *Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion* ar sut i ddelio â cheisiadau gan wrthrych y data.

12. Defnydd Personol

Nid yw deddfwriaeth diogelu data yn cynnwys tynnu lluniau a recordiadau at ddefnydd personol. Mae ffotograffau a dynnir at ddefnydd personol yn unig wedi'u heithrio o *Ddeddf Diogelu Data 2018*.

Gall defnydd personol gynnwys rhiant yn tynnu llun o'u plentyn yn y diwrnod chwaraeon ysgol i'w roi yn yr albwm lluniau teuluol neu neiniau a theidiau yn recordio eu hwyrion a'u hwyresau mewn drama ysgol at eu defnydd personol.

Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gyffredinol yn caniatáu tynnu lluniau a recordiadau mewn dramâu ysgol a digwyddiadau fel diwrnod chwaraeon gan ei bod yn debygol y

bydd disgyblion ac unigolion eraill yn y lluniau/recordiadau. Bydd yr ysgol yn recordio digwyddiadau lle bynnag y bo modd a bydd yn sicrhau bod copïau ar gael i'r holl rieni/gofalwyr, ac efallai y codir tâl amdanynt.

Nid yw'r ysgol yn caniatáu i rieni/gwarcheidwaid bostio ffotograffau a recordiadau o blant pobl eraill ar y cyfryngau cymdeithasol am resymau diogelu, yn hytrach na diogelu data.

Os bydd achlysuron lle mae'r ysgol yn caniatáu i deuluoedd dynnu lluniau neu recordiadau, bydd y Pennaeth yn rhoi gwybod i deuluoedd disgyblion/rhieni/gofalwyr cyn yr achlysur a bydd yn egluro'r hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir o ran tynnu lluniau neu recordio ac mewn perthynas â rhannu'r ffotograffau neu'r recordiadau. Bydd yr ysgol yn atgoffa rhieni a gofalwyr gyda chyhoeddiad llafar ar ddechrau'r digwyddiad bod yn rhaid cymryd unrhyw luniau at ddefnydd personol yn unig ac na ddylid rhoi delweddau o'r fath ar y rhyngrwyd neu fel arall gellir torri deddfwriaeth diogelu data.

Ni chaniateir i bobl nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â'r ysgol dynnu lluniau na recordiadau a gall staff holi unrhyw un sy'n ceisio gwneud hynny nad ydynt yn eu hadnabod.

13. Hyfforddi Staff

Bydd y Pennaeth a'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n ddigonol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu data.

14. Mynd yn Erbyn y Polisi

Gallai peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff yr ysgol arwain at ganlyniadau difrifol. Os bydd cynnwys anghyfreithlon, difenwol neu wahaniaethol, gallai arwain at erlyniad, camau disgyblu neu ddiswyddo.

Os canfyddir bod gweithiwr wedi mynd yn erbyn y polisi hwn, gallai hyn sbarduno proses ddisgyblu o dan bolisi disgyblu mabwysiedig yr ysgol. Bydd yn ofynnol i unrhyw aelod o staff yr amheuir ei fod wedi mynd yn erbyn y polisi hwn gydweithredu ag ymchwiliad yr ysgol, a allai olygu trosglwyddo cyfrineiriau perthnasol a manylion mewngofnodi.

Os bydd unigolyn na gyflogir gan yr ysgol yn mynd yn erbyn y polisi hwn (h.y. gweithwyr dros dro, contractwyr eraill, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr ac unrhyw drydydd partïon sydd â chyfrif ysgol), efallai y bydd eu contract neu drefniant yn cael ei derfynu ar unwaith.

15. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion bob tair blynedd, oni bai bod newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer, polisi neu ganllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r polisi gael ei ddiweddaru'n gynt.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Reolaeth y Gwasanaeth Dysgu gyda mewnbwn gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion a bydd yn cael ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu monitro gan Dîm Arweinyddiaeth a chorff llywodraethu'r ysgol.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon am unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion heb betruso:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â diogelu data ar wefan yr ICO: https://ico.org.uk/

Content **Page**

1. Policy Statement 16
2. Scope 16
3. Legislation, Guidance and Policies 16
4. Definitions 17
5. Responsibilities 18
5.1. School Governing Body 18
5.2. Headteacher (and/or Person Responsible for Data Protection within the School) 18
5.3. All Staff within the School 19
5.4. Schools Data Protection Officer 19
6. Photographs for Official School Use 19
7. School Website and Social Media 20
8. Legal Basis for Taking Photographs 20
8.1. Consent Forms 21
8.2. Not Providing Consent to Taking Photographs 22
8.3. Keeping a Record of Pupils that have not Provided Consent 22
9. Images Taken by the Media and External Establishments 22
9.1. Media 22
9.2. External Establishments 23
9.3. Commercial Photographer 23
10. Data Breaches 23
11. Subject Access Requests 24
12. Personal Use 24
13. Training of Staff 25
14. Breach of the Policy 25
15. Review of Policy and Oversight Arrangements 25
APPENDIX A- Taking Photos for the Purpose of School Publicity Policy- Headteacher's Checklist 29

1. Policy Statement

The school takes photographs, images and recordings of lessons, events and activities. This supports the school to capture memories for pupils; to record educational progress and to showcase activities and practices at the school.

Making use of photographs for publicity materials and to promote the school in the press and on social media can increase pupil motivation and staff morale, and help parents and the local community identify and celebrate the school's achievements.

The school follows good data protection practices to ensure that pupils' personal data is protected including photographs, images and recordings.

This policy outlines the procedure to follow in ensuring that there is a process in place for pupils/parents/carers to provide their consent for taking and sharing photographs and recordings and ensuring that data breaches do not arise.

The school will minimise risks by following the guidelines detailed in this policy and by securing pupil/parental/carer consent for the use of photographs.

2. Scope

This policy covers the use of photographs, images and recordings through the school or organised by the school in relation to pupils that can be identified from the photographs, images and recordings.

The terms 'photographs, 'images' and 'recordings' are used for any images captured via camera, mobile phone and film.

3. Legislation, Guidance and Policies

The main data protection legislation that this policy complies with is that of the *UK General Data Protection Regulation (UK GDPR)* and the *Data Protection Act 2018.*

This policy is also based on relevant codes of practice and on guidance published by the Information Commissioner's Office (ICO), namely the *'Taking Photographs in Schools'* guidance.

